Ymgynghoriad ar yr Amddifadiad o Ryddid (Bournewoods) sy'n Gwarchod Cod Ymarfer i Loegr a Chymru a Rheoliadau i Loegr

Canllaw hawdd i'w ddarllen

Gofyn i chi am y rheolau pan fod rhywun yn cael eu gorfodi i fyw mewn ysbyty neu gartref gofal er mwyn derbyn gofal neu driniaeth

DH Department of Health

Am fwy o wybodaeth mae angen i chi gyfeirio at y ddogfennaeth lawn. Rhain yw'r Cod Ymarfer a'r rheoliadau. Mae'r Cod yn cael ei alw yn adendwm.

Beth sydd yn y papur yma

	Cefndir	Tudalen 1
	Beth mae Rhyddid yn ei olygu	3
	Beth rydych chi yn ei feddwl	5
	Y Rheoliadau	6
	Yr adendwm i'r Cod Ymarfer	20
	Beth mae'r geiriau yn eu golygu	35

Cefndir



Rhai blynyddoedd yn ôl, yn achos ‘Bournewood’, roedd rhywun gydag anabledd dysgu wedi ei gymryd i ysbyty iechyd meddwl oherwydd y ffordd roedd e’n ymddwyn.

Fe ddywedodd ei gynhalwyr y gallai ddod adref ond dywedodd yr ysbyty dylai aros.

Nid oedd e wedi ei **gadw** o dan y **Ddeddf lechyd Meddwl** ond mi roedd wedi ei gadw yn yr ysbyty oherwydd bod y staff yn meddwl taw hyn fyddai ei **les bennaf**.

Roedd e'n methu siarad ond roedd e yn amlwg yn anhapus, felly aeth hyn i’r llys.

Oherwydd yr achos yma mae angen rheolau newydd i warchod pobl efallai bydd angen cael eu **hamddifadu** o'i **rhyddid** yn yr ysbytai neu mewn cartrefi gofal er eu **pennaf lles**.

Mae'r rheolau newydd wedi ei rhoi yn y **Ddeddf Gallu Meddyliol 2005**.

Beth mae Rhyddid yn ei olygu?

Roedd yr achos Bournewood am ddyn oedd a'i **rhyddid** wedi ei gymryd i ffwrdd wrtho gan yr ysbyty roedd e'n aros ynddi.

Mae **rhyddid** yn golygu bod yn rhydd i wneud y pethau rydych chi eisiau gwneud a byw lle rydych chi eisiau byw.

Mae yna sawl ffordd i **ryddid** rhywun gael ei gymryd i ffwrdd mewn ysbyty neu gartref gofal.

Wrth benderfynu os yw **rhyddid** rhywun wedi ei gymryd i ffwrdd mi fydd hi'n bwysig i edrych ar bethau fel:

- Staff yn cymryd rheolaeth dros bob penderfyniad mewn bywyd person



- Gorfod aros rhywle heb yr hawl i adael

- Dim hawl gan ofalwyr i fynd a rhywun adref

- Cyfyngiadau dianghenraid ar gael gweld ffrindiau neu deulu.

Ond mi fydd hi bob tro yn dibynnu ar bob sefyllfa ai yw'r person wedi cael ei rhyddid wedi ei gymryd i ffwrdd.

(gweler cwestiwn 19 am fwy o fanylion).

Beth rydych chi yn ei feddwl?

Mae'r papur yma yn gofyn beth rydych chi yn meddwl am y wybodaeth am y rheolau newydd ynglŷn â phryd mae hi'n iawn i gymryd **rhyddid** rhywun i ffwrdd.



Mae yna lyfryn gwahanol i'ch atebion.

Mi fyddwn â diddordeb mawr i wybod beth rydych chi am ddweud.

Y Rheoliadau

Mater 1



Mae angen 6 gwahanol wiriad neu asesiad cyn i **ryddid** rhywun gael ei gymryd i ffwrdd (gweler mater 11 am fwy o fanylion).

Mae'r rhain yn wiriadau ar:



1. Pa mor hen yw rhywun

2. Eu hiechyd meddyliol

3. Beth sydd yn eu **lles pennaf**

4. A ydyn nhw yn medru gwneud penderfyniadau

5. Pa gyfraith i ddefnyddio

6. A oes rhywun yn anghytuno

Mae'n rhaid i o leiaf 2 berson gwneud y gwiriadau. Mae'n rhaid iddynt:

- Feddu ar sgiliau a gwybod beth maent yn Gwneud

- Medru cyfathrebu gyda'r person

- Dim perthyn i'r un teulu a'r person

- Ddim yn derbyn unrhyw arian am wasanaethau gofal i'r person

- Ddim yn rhoi unrhyw ofal neu driniaeth i'r person

- Dim gofyn i'r rheolwr neu unrhyw weithiwr proffesiynol am eu caniatâd (na chwaith y ffordd arall)

- Cael yswiriant rhag ofn i rywbeth fynd o'i le.



Cwestiwn 1

A ydych chi yn cytuno gyda'r rhestr yma ynglŷn â'r bobl sy'n gwneud y gwiriadau?

A ddylai rhywbeth gael ei ychwanegu neu newid?

Mater 2

Bydd angen i'r bobl sy'n gwneud y gwiriadau gael sgiliau da a gwybod beth maent yn gwneud.

Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer pobl sy'n gwneud gwiriadau 2, 3 a 4 o dan fater 1. Roedd y rhain yn wiriadau ar:

2. Eu hiechyd meddyliol

3. Beth sydd yn eu **lles pennaf**

4. A ydyn nhw yn medru gwneud penderfyniadau

Dylai gwiriad 2 gael ei wneud gan ddoctor sy'n gwybod am iechyd meddylion ac wedi ei ddewis o dan y rheolau yn y Ddeddf Iechyd Meddyliol.

Dylai gwiriad 3 gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol gwahanol i wiriad 2. Dylai fod yn annibynnol a medru edrych ar beth sydd orau i'r person.

Dylent hefyd fod yn:

- Rhywun (dim doctor) sydd wedi ei ddewis o dan y rheoliadau yn y **Ddeddf Iechyd Meddyliol**

- Gweithiwr cymdeithasol o'r rhestr neu

- Nyrs o'r rhestr neu

- Therapydd galwedigaethol o'r rhestr neu

- Seicolegydd o'r rhestr.

Gall gwiriad 4 gael ei wneud gan bwy bynnag sy'n gwneud naill ai gwiriad 2 neu 3.



Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno gyda'r rhestrau yma ynglŷn â phwy ddylai bod yn gwneud y gwiriadau?

Os na, pwy arall rydych chi yn meddwl dylai wneud y gwiriadau?

Mater 3

Mae'n rhaid i'r gwiriadau gael eu gwneud yn gyflym fel bod caniatâd medru cael ei rhoi yn gyflym er mwyn i ofal a/neu driniaeth sydd angen cael ei roi ac i gadw pobl yn ddiogel.

- Dylai pob gwiriad gael ei wneud o fewn 21 diwrnod.

- Mewn argyfwng gall caniatâd gael ei roi i fynd a **rhyddid** rhywun am 7 diwrnod. Yn y sefyllfa yma, mae'n rhaid i'r gwiriadau cael eu gwneud o fewn yr amser yma a gofyn am y caniatâd cyffredin.

Gall y cyfnod 7 diwrnod ymestyn i 14 diwrnod mewn rhai sefyllfaoedd, ond dim am hirach.

Os oes rhywun yn meddwl bod rhyddid rhywun wedi ei ddwyn heb y caniatâd iawn yma mae'n rhaid i'r gwiriadau gael eu gwneud o fewn 7 diwrnod i weld a yw hyn yn wir.

Cwestiwn 3

A ydych chi ym meddwl bod yr amserau yma yn iawn?

Mater 4

Er mwyn sicrhau bod y gwiriadau yn cael eu cynnal mor gyflym â phosib a gan y bobl gywir, mae rhai manylion am y person yn gorfod cael ei rhoi gan yr ysbyty neu gartref gofal.

Y rhestr yw:

- Ei enw

- Enwau eu teulu

- Enwau eu gofalwyr neu unrhyw bobl bwysig arall

- Y rheswm ân ddwyn **rhyddid** rhywun

- Y cynllun gofal sy'n cael ei awgrymu

Cwestiwn 4

A ydych chi ym meddwl taw dyma'r wybodaeth gywir?

Mater 5

Unwaith bod rhyddid rhywun wedi ei gymryd i ffwrdd mae'n rhaid bod ganddynt rywun a fydd yn gallu eu cynnal a siarad drostynt. Mae'r person yma yn cael eu galw yn '**gynrychiolydd**'.

Dylai gynrychiolwyr:

- Fod dros 18

- Gallu cadw mewn cysylltiad gyda'r person

- Fod yn ddigon iach i wneud y swydd

- Gytuno i wneud y swydd



- Ddim yn derbyn unrhyw arian gan, neu â swydd gyda'r gwasanaethau, awdurdodau neu gartref gofal sy'n ymglymedig.



- Ddim bod o'r un teulu a rhywun sy'n derbyn arian o'r gwasanaethau sy'n ymglymedig

Cwestiwn 5

A ydych chi'n meddwl taw hwn yw'r rhestr gywir ar gyfer bod yn **gynrychiolydd**?

Mater 6

Gall cael **cynrychiolydd** fod yn bwysig iawn. Felly mae hi'n bwysig i gael un cyn gynted â phosib.

Dylai'r person sy'n gwneud y gwiriadau **lles pennaf** geisio dod o hyd i rywun i fod yn **gynrychiolydd**.

Gallent ofyn i'r person eu hun, neu i eraill sy'n ymglymedig, a fyddai'n dda. Ond mi fydd angen iddynt i wirio eu bod yn cyrraedd y rhestr o dan fater 5 uchod.

Os nad oes gan y person rhywun i fod yn **gynrychiolydd** iddynt, dylai rhywun arall cael ei ddewis. Dylai'r **cynrychiolydd** ddweud mewn ysgrifen eu bod yn cytuno i wneud y swydd.



Cwestiwn 6

A ydych chi yn credu taw dyma'r ffordd gywir i fod yn gynrychiolydd?

Mater 7

Os yw rhywun eisiau, neu orfod stopio ymddwyn fel **cynrychiolydd**, oherwydd nad ydynt yn gwybod sut i gyrraedd y rheolau neu oherwydd nad ydynt yn gwneud y swydd yn gywir, yna ni all y person fod yn gynrychiolydd i'r person rhagor ac mae angen dod o hyd i berson arall.

Cwestiwn 7

A ydych yn cytuno gyda'r ffordd yma o atal rhywun rhag bod yn **gynrychiolydd**?

Mater 8

Gall ymddiriedolaeth gofal cychwynnol, bwrdd iechyd neu awdurdod lleol fod mewn rheolaeth o gynnal y gwiriadau a gwneud yn siŵr bod pethau yn digwydd yn iawn a chyflym.

Os nad yw awdurdod lleol yn credu y dylent wneud hyn i rywun, mi fydd dal rhaid iddynt ei wneud tan fod awdurdod arall wedi eu penodi i arwain.

Y ffordd yma, mae'r gwaith dal yn mynd i gael ei wneud hyd yn oed os yw'r awdurdodau yn dadlau pwy ddylai ei wneud.

Cwestiwn 8

A ydych yn credu bod hyn yn ffordd dda i gael awdurdodau i wneud eu gwaith?

Mater 9

Rydym yn credu dylai pobl sy'n gweithio yn yr un ardal a'r person y dylai wneud y gwiriadau

Ambell waith mae hyn yn golygu bod awdurdod yn talu am ofal rhywun mewn ardal arall yn mynd i fod yn defnyddio pobl o ardal arall i wneud gwiriadau iddynt.

Cwestiwn 9

A ydych chi yn cytuno gyda hyn?

Yr adendwm i'r Cod Ymarfer

Mater 10



Mae gennym wybodaeth ysgrifenedig (I beth sy'n cael ei alw yn adendwm) ynglŷn â beth ddylai ymddiriedolaethau gofal cychwynnol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol a rheolwyr cartrefi gofal wneud pan maent yn dwyn **rhyddid** rhywun.

Mae'r rhain mewn llyfr o'r enw 'Draft Addendum to the Mental Capacity Act Code of Practice: Deprivation of Liberty Safeguards'.

Cwestiwn 10

A ydych chi yn cytuno gyda'r ffordd mae'r wybodaeth yma wedi ei gofnodi? A dylai rhywbeth arall wedi cael ei ysgrifennu?

Pethau i wirio

1. _____ ☐
2. _____ ☐
3. _____ ☐
4. _____ ☐
5. _____ ☐
6. _____ ☐

Mater 11

Mae'r wybodaeth ym mhennod 3 o'r **Adendwm** yn egluro'r 6 gwiriad ym mater 1 ac yn dweud sut y dylent gael eu cynnal.

I'ch atgoffa chi, y gwiriadau yw:

1. A ydynt dros 18?

2. A oes ganddynt broblem iechyd meddwl neu anabledd dysgu?

3. I geisio gweithio allan os yw hi er **lles pennaf** i rywun i ddwyn eu **rhyddid**

4. I wirio i weld os yw person yn medru gwneud penderfyniad ar gyfer eu gofal.



5. A ddylai'r gyfraith Iechyd Meddyliol neu'r Ddeddf Gallu meddyliol gael ei ddefnyddio?

6. I wirio i weld os yw pobl arall, fel cynrychiolwr neu warchodwr, yn cytuno gyda chymryd rhyddid rhywun.

Cwestiwn 11

A yw'r adendwm yn egluro pob rheol yn ddigon da i'r bobl sy'n gwneud y gwiriadau?

Cwestiwn 12

Sut gallai'r rheolau yma cael eu hesbonio yn well i ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, ffrindiau a gwarchodwyr eraill?

A, ydych chi yn meddwl eu bod yn talu digon o sylw i'r person a hefyd yn gwrando digon ar y pethau pwysig mae'r teuluoedd a'r gwarchodwyr yn ei ddweud?

Mater 13

Mae pennod 7 o'r **Adendwm** yn esbonio beth yw'r Llys **Gwarchod** a sut mae e'n gweithio i wneud yn siŵr bod y rheolau yn cael eu dilyn.

Fydd yn rhaid i'r llys wrando ar bobl sy'n credu eu bod heb gael eu gwneud yn iawn.



Cwestiwn 13

A yw swydd y llys yn glir? Sut allai cael ei wneud yn fwy eglur?

Mater 14

Pan fod pobl yn meddwl cymryd **rhyddid** person sydd heb deulu neu ffrindiau i'w cynrychioli yna mae'n rhaid iddynt gael **Hyrwyddwr Gallu Meddyliol Annibynnol** (**IMCA-Independent Mental Capacity Advocate**), tra bod y gwiriadau yn cael eu cynnal.

Gwaith yr IMCA yw darparu unrhyw wybodaeth maent yn gallu i'r sawl sy'n cynnal y gwiriadau. Fe allent hefyd gwestiynu os maent yn credu bod rhywbeth o'i le.

Unwaith bod person wedi cael ei **rhyddid** wedi ei gymryd i ffwrdd mae'n rhaid iddynt gael **cynrychiolydd** cyn gynted â phosib. Dylai'r **cynrychiolydd** gynnal a siarad allan ar ran y person tra eu bod yn **amddifad** o'i rhyddid.

Fe allent gwyno neu fynd i'r cwrt os oes angen ail edrych ar rywbeth neu os yw rhywbeth o'i le.



Cwestiwn 14

A yw'r wybodaeth yn yr adendwm yn ddigon clir ynglŷn â beth mae'r IMCA a'r cynrychiolwyr yn gwneud?

Mater 15

Os yw Iechyd (ymddiriedolaeth gofal cychwynnol yn Lloegr, neu fwrdd iechyd lleol yng Nghymru) yn talu ysbyty am ofal ac maent yn gweld hi orau i berson i gymryd eu rhyddid yna maent mewn rheolaeth i gael popeth wedi ei gwblhau.

Os yw awdurdod lleol yn talu am rywun mewn cartref gofal ac maent yn ei gweld hi orau i berson i gymryd eu **rhyddid** yma mae'r awdurdod lleol yng ngofal cwblhau popeth.

Mae'r awdurdod mewn grym yn gorfod:

- Cael yr holl bapurau gan y sawl sydd eisiau cymryd **rhyddid** rhywun

- Cael yr holl wiriadau wedi eu cwblhau i weld a yw hi'n angenrheidiol i gymryd **rhyddid** rhywun ac i weld os yw e er **lles pennaf**, a

- Gwneud yn siŵr bod y rheolau priodol wedi eu dilyn

Cwestiwn 15

A yw'r rheolau yn glir ynglŷn â beth mae'r sefydliadau yma yn gorfod gwneud?

Mater 16



Mewn rhai sefyllfaoedd brys mae'n rhaid i **ryddid** rhywun gael ei gymryd yn syth i roi gofal neu driniaeth.

Mewn rhai sefyllfaoedd brys iawn, gall ysbytai a chartrefi gofal gymryd rhyddid rhywun cyn i'r gwiriadau gael eu gwneud.

Mae'n rhaid i'r bobl sydd yna yn gwneud gwiriadau ar ran **les pennaf** y person dderbyn unrhyw waith sydd eisoes wedi ei wneud i gynllun gofal y person i weld a yw cymryd eu **rhyddid** yn eu **lles pennaf**.



Cwestiwn 16

A yw'r rheolau yn ddigon clir i beth mae'r ysbytai a'r cartrefi gofal yn gorfod gwneud?

Mater 17

Mae pennod 5 o'r **adendwm** yn rhoi manylion am yr adolygiadau. Dylai adolygiad cael ei gynnal os nad yw person yn cyrraedd y 6 gwiriad o dan fater 1 bellach ac os yw pethau wedi newid i'r person.

Mae'n rhaid i adolygiad gael ei wneud os yw:

- Person yn gofyn am un

- **Cynrychiolwr** yn gofyn am un

- Yr awdurdod yn gofyn am un

- Neu ar unrhyw bryd arall (os oes rhywun arall yn gofyn am un)

Mae'n rhaid i'r person, y **cynrychiolwr** a phobl arall sy'n gysylltiedig gael eu cynghori os oes adolygiad yn mynd i gymryd lle.

Cwestiwn 17

A yw'r rheolau ar adolygiadau yn glir ac yn ddefnyddiol?

Mater 18

Penderfyniad y llys yw hi i ddewis beth mae cymryd **rhyddid** rhywun yn ei olygu.

Y math o bethau maent eisoes wedi penderfynu arnynt yw pethau fel:

- Dal rhywun, gan gynnwys rhoi cyffuriau iddynt, i fynd a nhw i'r ysbyty os nad ydynt am fynd.

- Gweithwyr mewn rheolaeth lwyr dros eich gofal a beth rydych yn ei wneud am amser hir.

- Gweithwyr yn rheoli gwiriadau, pa driniaeth rydych yn derbyn, a pwy allwch weld a ble gallech fyw.

- Penderfynir y byddai gweithwyr yn eich atal chi i adael rhywle os fyddech yn ceisio

- Mae eich gofalydd wedi gofyn i chi i ddod adref ond maen nhw wedi cael yr ateb na.

- Ni allech weld ffrindiau rydych chi am ei weld.

- Ni allech wneud y pethau yr hoffech chi ei wneud oherwydd roeddech o hyd yn cael eich gwylio.

Cwestiwn 18

A yw hyn yn glir ac o gymorth?

Mater 19

Mae'r **adendwm** yn dweud y dylai pobl mewn gofal gael yr un faint o reolaeth dros eu bywydau ag sy'n bosib fel nad ydynt yn cymryd eu **rhyddid**.

Dylent wneud pethau fel:

- Gwneud yn siŵr bod pob penderfyniad yn cael eu cymryd mewn ffordd wedi ei gynllunio, a bod y rheswm am y penderfyniad wedi ei roi yn ysgrifenedig.

- Dilyn y rheolau ar gyfer sut i wneud cynlluniau gofal da

- Gwirio i weld os yw person yn medru cytuno gyda'r cynllun ai peidio

- Sicrhau bod pob penderfyniad am y person yn dilyn y rheolau yn y **Ddeddf Gallu Meddyliol 2005**.

- Meddwl a oes ffordd rwyddach neu haws i ofalu am rywun sydd ddim yn cymryd eu **rhyddid**.

- Sicrhau bob pobl mewn ysbyty neu gartref gofal yn dal yn meddu ar yr hawl i wneud cymaint ag sy'n bosib.

- Rhoi cymaint ag sy'n bosib o wybodaeth i'r person a'u teulu a'u ffrindiau am eu gofal.

- Helpu'r person i gadw mewn cysylltiad gyda'u teulu, ffrindiau a gofalwyr.

- Gwneud adolygiadau i weld os yw'r person yn medru gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i gynllun gofal.

Cwestiwn 19

A yw'r pwyntiau yma o gymorth?

Mater 20



Mae'r rheolau ynglŷn â chymryd **rhyddid** rhywun yn cael eu cymryd **o'r Ddeddf Gallu Meddyliol 2005** ond mae **rhyddid** pobl hefyd yn medru cael ei gipio o dan **Ddeddf lechyd Meddwl 1983**. Mae hi'n bwysig i benderfynu pa un o'r deddfau yma dylai cael eu defnyddio.

Dylai'r 2 ddeddf cael eu gweld fel gweithio ynghyd gyda'i gilydd.



Cwestiwn 20

A yw'r wybodaeth yn yr **adendwm** yn gwneud hi'n glir y gwahaniaeth rhwng y deddfau?

Mater 21

Bydd yr **adendwm** yn llyfr ar ei hun, er bod rhaid iddo gael ei defnyddio gyda **Chod Ymarfer Gallu Meddyliol**.

Mae'r prif **god** yn dweud sut i wirio os yw rhywun yn abl i wneud penderfyniad, beth i edrych arno wrth feddwl am **les pennaf** y person a sut mae'r 2 ddeddf yn gweithio gyda'i gilydd.

Cwestiwn 21

A yw hi'n glir beth sydd yn y prif **God**? A dylai'r **adendwm** newydd gael ei roi mewn llyfr ar ben ei hun neu ei roi ynghyd gyda'r prif **God**?

Beth mae'r geiriau yn eu golygu

Addendum	Llawlyfr yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y cod.
Lles pennaf	Dylai unrhyw beth sy'n cael ei wneud i berson na all wneud penderfyniadau i'w hunain cael ei wneud er eu **lles pennaf**. Mae hyn yn golygu meddwl am beth sydd orau i'r person a dim beth mae pobl eraill eisiau. Mae gan y gyfraith newydd rhestr wirio o bethau mae'n rhaid i'r bobl meddwl amdano wrth benderfynu ar **les pennaf** rhywun.
Cod Ymarfer (Cod)	Mae arweiniad a gwybodaeth yn esbonio sut mae'r **Ddeddf Gallu Meddyliol** yn gweithio. Mae e'n dweud wrth bobl sut i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y gyfraith. Mae'n rhaid i rai pobl - fel, doctoriaid, nyrsys, cyfreithwyr, twrnai a dirprwyon dalu sylw i'r **Cod Ymarfer**.
Llys Gwarchod	Llys newydd sy'n delio gyda phopeth sy'n ymwneud gyda'r **Ddeddf Gallu Meddyliol**. Mae'r llys yn penderfynu beth sydd orau i bobl na all benderfynu tros eu hun.
Caethiwo	Cael eich gwneud i aros yn rhywle, gan amlaf gartref neu ysbyty.
Amddifad	Rhywbeth yn cael ei dynnu oddi wrthoch chi neu heb ei roi i chi.

Hyrwyddwr Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA- Independent Mental Capacity Advocate)	Rhywun sy'n siarad dros bobl sydd heb deulu neu ffrindiau. Maent yn helpu pan fod angen gwneud penderfyniadau pwysig gan yr NHS neu awdurdodau lleol. Gall penderfyniadau fod yn bethau fel triniaeth feddygol ddifrifol neu symud i ysbyty neu gartref gofal. Fe allent fod yn ymglymedig gyda mathau arall o benderfyniadau hefyd.
Bwrdd iechyd lleol	Y gwasanaeth iechyd lleol yng Nghymru
Rhyddid	Rhydd i wneud y pethau rydych chi am wneud a byw lle'r i chi eisiau byw.
Deddf Gallu Meddyliol	Cyfraith newydd am sut i gynnal ac amddiffyn pobl sydd fethu gwneud penderfyniadau eu hun oherwydd problem gyda'r ffordd mae eu meddwl neu ymennydd yn gweithio. Mae'n gadael i bobl gynllunio ymlaen am amser pan efallai na allent wneud penderfyniadau am rhai pethau.
Deddf Iechyd Meddyliol 1983	Cyfraith am y gofal a thriniaeth o gleifion gyda phroblemau iechyd meddyliol, yn enwedig pan nad oes ganddynt yn hawl i ddweud 'ie' neu 'na' i driniaeth.
Ymddiriedolaeth Gofal Cychwynnol	Y gwasanaeth iechyd lleol yn Lloegr
Cynrychiolwr	Rhywun yn siarad trosoch chi

Daw'r gwaith celf o'r ddogfen yma o'r Casgliad Clipart Prisio Pobl ac nid oes hawl eu defnyddio unrhyw le arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Gwasanaethau Ysbrydoledig

www.inspiredservices.org.uk